cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2024/25

# PR1 Nodiadau Myfyrwyr sy'n Parhau ar gyfer Cais

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais. Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Cyllid Myfyrwyr Cymru yw'r gwasanaeth cyllid myfyrwyr a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.**

**Ni ddylech** fod yn llenwi PR1 os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych fel arfer yn byw yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ond rydych wedi symud neu fe fyddwch yn symud i Gymru i ddilyn y cwrs hwn. Os yw hyn yn wir, dylech gysylltu â pha un bynnag o'r sefydliadau canlynol sy'n berthnasol:
  - Student Finance England (SFE);
  - Student Awards Agency Scotland (SAAS);
  - Eich Awdurdod Addysg (EA) lleol yng Ngogledd Iwerddon;
  - Yr Adran Addysg ar gyfer Ynys Guernsey neu Jersey;
  - Yr Adran Addysg ar gyfer Ynys Manaw.
- Rydych yn ddinesydd o Aelod Wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac rydych wedi symud i Gymru i ddilyn cwrs addysg uwch. Os yw hyn yn wir, dylech fynd i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** i gael rhagor o wybodaeth.
- Rydych yn astudio cwrs mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd ac yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu'r Adran Iechyd (AI) neu Student Awards Agency Scotland (SAAS) nad yw wedi ei asesu ar sail incwm eich cartref.

Rhaid i chi ddefnyddio'r nodiadau hyn pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon hwn yn y brif ffurflen PR1. n

Amlinellir unrhyw dystiolaeth sy'n ofynnol i chi ei darparu hefyd yn y nodiadau hyn ac fe'i nodir â'r eicon hwn. t

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd ar dudalen 16 y nodiadau cysylltiedig.

Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw. Am ragor o wybodaeth am hyn, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Cysylltwch â'r brifysgol neu goleg os ydych chi angen rhagor o wybodaeth ynghylch eu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

# Adran 1 - cyllid sydd ar gael

## Benthyciad Cynhaliaeth RHAID EI DALU YN ÔL

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth os oes gennych radd anrhydedd o'r Deyrnas Unedig yn barod oni bai eich bod yn dilyn gradd alwedigaethol benodol.

Os asesir eich bod yn gymwys i dderbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yna efallai y bydd swm y Benthyciad Cynhaliaeth sydd ar gael i chi yn cael ei leihau, ond bydd y cyfanswm y mae gennych hawl iddo yn aros yr un fath.

## Benthyciad Ffioedd Dysgu RHAID EI DALU YN ÔL

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu os oes gennych radd anrhydedd neu gyfatebol o dramor. Bydd y Benthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn ei fenthyca yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch Prifysgol neu Goleg mewn rhandaliadau yn y flwyddyn academaidd. Rhoddir pob taliad ar ôl i ni dderbyn cadarnhad eich bod yn bresennol ar ddechrau pob tymor.

**Os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018**

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon sy'n codi ffioedd dysgu hyblyg neu amrywiol hyd at uchafswm o £9,250 gallwch gael Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £5,075 a Grant Ffioedd i dalu gweddill y ffioedd dysgu. (Gweler yr enghraifft yn yr adran Grant Ffioedd). Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat dim ond am Fenthyciad Ffioedd Dysgu hyd at yr uchafswm o £6,165 y gallwch wneud cais os yw eich cwrs yn un sy'n gymwys am gymorth ffioedd.

## Grant Ffioedd NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 efallai'ch bod yn gymwys i gael Grant Ffioedd.

Bydd swm y Grant Ffioedd yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael (£5,075) a'r ffioedd dysgu sy'n cael eu codi gan y brifysgol neu goleg.

Er enghraifft:

Ffioedd Dysgu a godwyd (hyd at £9,250) - Uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu (£5,075) = Hawl i Grant Ffioedd (hyd at £4,175)

Bydd eich Grant Ffioedd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn y flwyddyn academaidd.

Ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Ffioedd os byddwch yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg preifat.

## Lwfans Dysgu Rhieni NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Bydd y swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar eich incwm ac incwm eich dibynyddion (gan gynnwys gŵr, gwraig neu bartner). Nid yw'n cael ei gyfrif gan Ganolfan Byd Gwaith nac adrannau budd-dal tai wrth gyfrifo eich budd-daliadau eraill, felly nid oes raid i chi ddewis rhwng Lwfans Dysgu Rhieni a budd-daliadau eraill.

## Grant Oedolion Dibynnol NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Mae'r grant hwn yn ddibynnol ar eich incwm ac unrhyw incwm ar gyfer eich dibynyddion. Rhaid i chi fodloni un o'r meini prawf canlynol i allu ymgeisio ar gyfer y grant hwn:

- rydych chi'n briod,
- mewn partneriaeth sifil ac yn byw gyda phartner o'r naill ryw, neu
- mae gennych oedolyn dibynnol arall.

Ni allwch ymgeisio ar gyfer Grant Oedolion Dibynnol os oeddech chi'n cyd-fyw gyda phartner, gan ddechrau eich cwrs cyn 1 Awst 2018, a'ch bod dros 25 oed ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs.

Dim ond ar gyfer un oedolyn dibynnol allwch chi wneud cais ar gyfer y grant hwn; os oes gennych chi fwy nag un oedolyn dibynnol, dim ond un grant allwch chi ei gael.

### Grant Teithio NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Os oes raid i chi astudio mewn prifysgol neu goleg tu allan i'r Deyrnas Unedig am y rhan fwyaf o unrhyw dymor yn y flwyddyn academaidd neu os oes raid i chi fynd i fan yn y Deyrnas Unedig ymhell o'ch prif brifysgol neu goleg fel rhan o'ch hyfforddiant meddygol neu ddeintyddol, efallai y byddwch yn gymwys i gael help at gostau teithio. Efallai hefyd y gallwch gael help i dalu cost yswiriant meddygol, costau fisa a brechiadau. Mae'r gefnogaeth a gewch yn ddibynnol ar incwm eich aelwyd.

Os oes gennych gostau teithio ychwanegol oherwydd eich bod yn anabl neu fod gennych anhawster dysgu penodol, gwnewch gais am Lwfans Myfyrwyr Anabl yn ei le. Os oes gennych anabledd ond nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl, gallwch wneud cais am Grant Teithio o hyd.

Anfonir ffurflenni eraill atoch i'w llenwi am gostau teithio.

### Lwfans Myfyrwyr Anabl NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Gall y rhain helpu gyda chostau ychwanegol sydd gennych yn gysylltiedig â'ch cwrs oherwydd eich anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhawster dysgu penodol neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth.. Mae'n cynnwys offer arbennig, cymorth anfeddygol neu drefniadau teithio arbennig.

Os ydych am ymgeisio am Lwfans Myfyrwyr Anabl yn unig dylech lenwi ffurflen gais DSA1 yn hytrach na'r ffurflen hon. Gallwch lawrlwytho ffurflen gais DSA1 lawn yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Fel arall, dylech lenwi adrannau 2-3 o'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom ni. Byddwn wedyn yn anfon ffurflen arall atoch sy'n gofyn cwestiynau mwy penodol am eich anabledd/anhawster dysgu penodol.

t Os ydych yn anabl yn gorfforol neu fod gennych gyflwr iechyd meddwl, bydd raid i chi roi tystiolaeth o'ch cyflwr trwy lythyr gan eich meddyg neu arbenigwr priodol. Os oes gennych anhawster dysgu penodol (dyslecsia, er enghraifft), bydd raid i chi roi tystiolaeth o hyn ar ffurf asesiad diagnostig gan seicolegydd neu athro arbenigol gyda chymwysterau addas, bydd hyn o gymorth i ni brosesu eich cais yn gyflymach. Os nad oes gennych y dystiolaeth yma eto, anfonwch y ffurflen hon atom yn awr ac anfon tystiolaeth o'ch anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol yn ddiweddarach. Byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am yr wybodaeth ychwanegol y bydd arnom ei hangen.

t Os byddwch yn dilyn eich cwrs trwy ddysgu o bell neu yn dilyn cwrs ond heb fynd yno yn bersonol mewn ffordd arall am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd, gallwch ymgeisio am bob math o gyllid myfyrwyr (ac eithrio Grant Teithio) fel petaech yn mynychu'r cwrs yn bersonol. Rhaid i'r dystiolaeth yr ydych yn ei hanfon ddangos nad ydych yn medru mynychu'r brifysgol neu'r coleg yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Lwfans Myfyrwyr Anabl ewch i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Grant Gofal Plant NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Efallai y byddwch yn cael help gyda rhywfaint o'ch costau gofal plant, gan ddibynnu ar eich incwm, ac incwm eich dibynyddion, os oes gennych blant dibynnol sydd dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gan gynnwys plant dibynnol a enir ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddechrau – neu dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig – a'ch bod angen gwasanaethau gofal plant ar eu cyfer. Efallai y byddwch yn medru cael help at gostau gofal plant yn ystod gwyliau yn ogystal ag yn ystod y tymor. Rhaid i'ch darparwr gofal plant fod wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo i chi dderbyn y grant hwn. Ni allwch dderbyn y grant hwn os byddwch chi neu eich partner yn derbyn naill ai'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol, rhaid i chi ddewis y naill neu'r llall. Er mwyn cael

gwybod rhagor am Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ewch i: **www.gov.uk**

Er mwyn cael gwybod rhagor am y Grant Gofal Plant ewch i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Bydd swm y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y byddwch yn ei dderbyn yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliaeth y mae gennych hawl iddo ac mae'n ddibynnol ar incwm eich aelwyd.

Am ragor o wybodaeth ewch i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Grant Cymorth Arbennig NID OES RHAID EI DALU YN ÔL

Mae'r Grant Cymorth Arbennig ar gael i helpu talu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs fel llyfrau, offer, teithio a/neu ofal plant.

Gallwch wneud cais am Grant Cymorth Arbennig, er enghraifft, os ydych chi'n unig riant, os oes gennych chi anableddau penodol neu os ydych chi'n gymwys i gael budd-daliadau penodol. Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael Grant Cymorth Arbennig yn lle Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Ni fydd cael Grant Cymorth Arbennig yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliaeth y byddwch yn gallu ei gael.

Os dechreuoch ar eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018, efallai y byddwch yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig o hyd at £5,161 a Benthyciad Cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm eich cartref a ble fyddwch chi'n astudio.

Os cychwynnoch ar eich cwrs cyfredol cyn 1 Awst 2018, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig o hyd at £5,161. Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael Grant Cymorth Arbennig yn lle Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Cefnogaeth Arbennig.

Bydd y cwestiynau yn Adran 7 yn eich helpu i gyfrifo a ydych chi'n gallu cael Grant Cymorth Arbennig. Gallwch weld mwy o wybodaeth am fenthyciadau a grantiau trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Gwneud cais am gyllid myfyrwyr nad yw'n seiliedig ar incwm y cartref

Os byddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr nad yw'n seiliedig ar incwm eich cartref, yna gwnewch gais i gael eich ailasesu ar sail incwm eich cartref yn ddiweddarach yn y flwyddyn, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o'r Benthyciad Cynhaliaeth a dalwyd i chi.

Mae hyn oherwydd y gallai cael eich asesu ar incwm eich cartref olygu y gallwch gael llai o Fenthyciad Cynhaliaeth a mwy o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os byddwch yn dal i gael anhawster dewis pa fathau o gymorth ariannol yr ydych am ymgeisio amdanynt ewch i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** am ragor o wybodaeth.

Mae'r holl ffurflenni cais a chanllawiau ar gael ar-lein yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch archebu ffurflenni a chanllawiau mewn Braille, print mawr neu sain trwy anfon e-bost gyda'ch enw, cyfeiriad, Rhif Cyfeirnod Cwsmer ynghyd â pha ffurflen a fformat yr ydych eu hangen at: **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer: dim ond ceisiadau am ffurfiau a fformatau gwahanol y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â nhw.

# Adran 2 - manylion personol

## Manylion cyswllt

**b** Anfonir yr holl ohebiaeth a gyhoeddwn i'r cyfeiriad hwn. Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif arlein neu trwy'n ffonio.

## Statws perthynas

**c** Rydych yn 'byw gyda phartner' os ydych yn rhannu cartref gyda'ch partner ond nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid yw o bwys os ydych o'r un rhyw neu o ddau ryw gwahanol.

t Os byddwch o dan 25 ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, a'ch bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, anfonwch eich tystysgrif briodas neu dystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol gyda'r cais.

t Os ydych wedi cael ysgariad, wedi gwahanu, neu os byddwch wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd wedi dod i ben, dylech anfon copi o'r datganiad absoliwt, y gorchymyn dileu, neu lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich statws. Bydd unrhyw ddogfennau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd atoch.

t Os ydych yn weddw neu yn bartner sifil sydd wedi goroesi, anfonwch y dystysgrif farwolaeth wreiddiol.

## Lluoedd Arfog

**d** Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell y tu allan i Gymru os ydych chi neu aelod o'ch teulu (yr ydych yn byw gyda nhw) yn gwasanaethu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- y Gwasanaeth Llyngesol (Y Llynges Brydeinig a'r Môr-filwyr Brenhinol);
- y Fyddin;
- yr Awyrlu Brenhinol;
- yr Heddlu Milwrol Brenhinol; neu
- y Gurkhas.

Bydd yr aelodau teuluol canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- cymar neu bartner sifil sy'n byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- plentyn, llys-blentyn neu blentyn wedi'i fabwysiadu sy'n byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- rhiant dibynnol sy'n byw gyda;
  - phlentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru.

**Os ydych chi yn y Lluoedd Arfog**

Bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'ch enw, eich cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) a'r wlad yr oeddech yn byw ynddi yn wreiddiol cyn i chi fod yn eich lleoliad cyfredol. Mae'n rhaid iddo hefyd gadarnhau'r wlad rydych chi wedi'i leoli ar hyn o bryd.

**Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'r canlynol:**

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw chi
- ei berthynas gyda chi
- lle maent yn seiliedig ar hyn o bryd
- os ydych chi wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ym mha wlad oedd yn byw ynddi'n wreiddiol cyn bod yn ei leoliad cyfredol
- os nad ydych chi fyth wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig fel arfer, y wlad yr ymunodd â'r Lluoedd Arfog ohoni.

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, stampio a dyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

# Adran 3 - am eich cwrs a'ch prifysgolneu goleg

## Manylion y cwrs

**b** Dylech roi cymaint o fanylion ynghylch eich prifysgol neu goleg a chwrs â phosibl, er enghraifft, enw llawn y brifysgol/coleg, enw llawn y cwrs a chod UCAS y cwrs.

Os na ellir cadarnhau manylion y cwrs newydd a roddwch i ni eto, efallai y bydd eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei oedi. Cofiwch y gall swm eich ffioedd dysgu newid trwy flynyddoedd academaidd. Os nad ydych yn siŵr am swm y ffioedd dysgu a godir arnoch chi, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg.

Os bydd Ildiad ar eich Ffioedd Dysgu, bydd y Grant Ffioedd a delir i'ch prifysgol neu goleg yn cael ei leihau yn ôl swm yr ildiad y byddwch yn ei gael.

## Math o gwrs

**Dysgu o bell amser llawn**

**c** Os dechreuodd eich cwrs cyn 1 Awst 2018 a'ch bod yn astudio ar gwrs dysgu o bell amser llawn am reswm yn ymwneud ag anabledd, rhaid i chi anfon tystiolaeth wedi llungopïo atom sy'n dangos yn glir nad ydych yn gallu mynychu'r brifysgol neu goleg yn bersonol am reswm yn ymwneud â'ch anabledd. Os ydych wedi anfon y dystiolaeth hon mewn blwyddyn academaidd flaenorol, nid oes angen i chi ei hanfon eto.

Os ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell amser llawn oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog tu allan i Gymru, nid oes rhaid i chi anfon tystiolaeth o anabledd.

Rhaid i chi ddarparu llythyr gan eich prifysgol neu goleg yn cadarnhau'r nifer o wythnosau y byddwch yn astudio amser llawn ac ar ymarfer dysgu amser llawn yn ystod blwyddyn academaidd.

**d** Os ydych yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru, dylech ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn oherwydd bod hwn yn fwrsariaeth ar wahân i'r rhai a gynigir gan y GIG neu'r Adran Iechyd.

Os ydych chi'n astudio ar gwrs Parafeddyg mewn prifysgol/coleg yn Lloegr ac yn gymwys i ymgeisio am gefnogaeth ffioedd dysgu ac/neu gostau byw gan eich ymddiriedolaeth ambiwlans/iechyd lleol, dylech roi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn.

Os ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth gofal iechyd **GIG Cymru**, gallwch gael Benthyciad Cynhaliaeth heb brawf modd.

Os ydych yn gymwys i ymgeisio am fwrsariaeth **nad yw ar sail asesiad incwm** yna nid ydych yn gymwys am unrhyw gyllid myfyrwyr arall oni bai eich bod yn fyfyriwr ar secondiad yn astudio cwrs yn ymwneud ag iechyd a'ch bod wedi cael gwybod na chewch ymgeisio am unrhyw fwrsariaeth o gwbl, naill ai ar sail asesiad incwm neu heb fod ar sail asesiad incwm.

Rhaid i chi anfon cadarnhad o'ch cymhwyster am fwrsariaeth GIG atom. Os nad oes gennych y dystiolaeth hon yn awr, peidiwch ag aros nes byddwch yn ei derbyn cyn cyflwyno eich cais am gyllid myfyrwyr. Anfonwch y dystiolaeth atom cyn gynted ag y byddwch yn ei derbyn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy fynd i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cysylltwch/**

Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth, cysylltwch â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr, GIG Cymru.

Os byddwch yn astudio dramor byddwn yn anfon ffurflenni ychwanegol i chi ar wahân. Bydd raid i chi lenwi'r ffurflenni hynny gyda'ch manylion astudio dramor a manylion teithio.

## Manylion y tymor

**f** Os ydych yn astudio dramor dylech siarad â'ch prifysgol neu goleg i gadarnhau eich ffioedd dysgu. Byddwn yn anfon ffurflenni ychwanegol atoch i'w llenwi gyda'ch manylion astudio dramor a manylion teithio.

Dylech ddewis 'Lleoliad gwaith' os byddwch yn gweithio yn y Deyrnas Unedig neu dramor fel rhan o'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd hon neu os yw eich lleoliad yn rhan o ryng-gwrs.

## Manylion y lleoliad

**g2** Os ydych yn gwneud cais am gyllid gan Gynllun Turing neu Taith, ni allwch gael taliad am yr un costau teithio trwy Grant Teithio CMC a Chynllun Turing neu Taith.

**h** Os nad ydych yn gwybod ble bydd eich lleoliad eto, dylech roi gwybod i ni cyn gynted ag y cewch chi wybod. Os yw eich lleoliad yn un di-dâl nad yw wedi ei restru yna dim ond Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfradd is y bydd gennych hawl iddo.

# Adran gofyn am fenthyciad

**Rhif Yswiriant Gwladol**

Os na fyddwch yn rhoi eich rhif Yswiriant Gwladol, bydd eich benthyciad yn cael ei ddal yn ôl a bydd raid i chi ariannu eich ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes byddwch wedi datrys y mater hwn.

Gallwch ddod o hyd i'ch Rhif Yswiriant Gwladol ar:

- eich cerdyn neu lythyr Rhif Yswiriant Gwladol;
- slip cyflog; neu
- ddogfen treth incwm fel P45 neu P60.

Os nad ydych chi erioed wedi cael rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y blwch rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau i gael rhif Yswiriant Gwladol.

**Benthyciad Cynhaliaeth**

Telir y benthyciad hwn mewn rhandaliadau, yn uniongyrchol i chi a'i fwriad yw i'ch helpu i dalu am eich costau byw personol trwy gydol y flwyddyn academaidd.

**Benthyciad Ffioedd Dysgu**

Bydd eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn rhandaliadau yn y flwyddyn academaidd.

Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu o ddiwrnod cyntaf pob tymor **nid** y dyddiad pan delir y rhandaliad i'ch prifysgol neu goleg.

| Dyddiad atebolrwydd | % o'r benthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn atebol amdano |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf Tymor 1 | 25% |
| Diwrnod cyntaf Tymor 2 | 50% |
| Diwrnod cyntaf Tymor 3 | 100% |

Os nad ydych yn siŵr pryd bydd eich tymor yn dechrau, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg.

Rhoddir pob taliad ar ôl i ni dderbyn cadarnhad gan eich prifysgol neu goleg eich bod yn bresennol ar ddechrau pob tymor. Codir llogau o'r diwrnod y byddwn yn talu'r benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu goleg.

Os ydych ym mlwyddyn gyntaf cwrs mynediad rhaglen feddygol neu ddeintyddol i raddedigion mewn prifysgol/coleg yn Lloegr, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £5,785 (os codir ffi o £9,000). Os yw'r ffi a godir gan eich prifysgol/coleg yn fwy na £9,000, bydd y GIG yn talu am y ffi atodol. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu'r £3,465 cyntaf o'r swm ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg yn eich blwyddyn gyntaf. Efallai y byddwch yn derbyn cyllid gan y GIG yn y blynyddoedd dilynol.

**Ymgeisio am fenthyciad yn ddiweddarach neu newid y swm y gofynnir amdano**

Gallwch ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw amser yn y flwyddyn academaidd ar yr amod eich bod o fewn y terfyn amser. Naw mis o ddechrau eich blwyddyn academaidd yw'r terfyn amser fel arfer.

## Adran gofyn am fenthyciad

Y ffordd hawsaf a chyflymaf i ymgeisio am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, neu i newid y swm y gwnaethoch ofyn amdano i gychwyn, yw ar-lein. Mewngofnodwch i'ch cyfrif yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Amodau a Thelerau**

Os byddwch yn derbyn benthyciad, mae contract cyfreithiol rhwymol rhyngoch chi a Gweinidogion Cymru. Mae'r adran gofyn am fenthyciad gan gynnwys y thelerau a nodir ar ôl adran 9 ar y ffurflen gais PR1 yn rhan ganolog o'ch contract gyda Gweinidogion Cymru. Gellir dod o hyd i amodau ychwanegol y contract yn y Rheoliadau a wnaed dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, neu ddeddfwriaeth olynol.

# Adran 5 - myfyrwyr dibynnol ac annibynnol

**a3** Mae bod â gofal unigolyn dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn a'r plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag yw eich perthynas â'r plentyn.

t Anfonwch dystysgrif geni wreiddiol y plentyn/plant a thystiolaeth mai chi sy'n gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn derbyn Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu elfen plant y Credyd Cynhwysol.

**b** **Ymddieithrio heb obaith cymodi**

Fel arfer byddwch yn cael eich ystyried fel rhywun sydd wedi ymddieithrio heb obaith cymodi oddi wrth eich rhieni os na fyddwch wedi cael unrhyw gyswllt llafar nac ysgrifenedig gyda'ch dau riant biolegol neu fabwysiadol, neu'ch unig riant sy'n byw am 12 mis neu fwy cyn cychwyn ar eich blwyddyn academaidd, ac na fydd hyn yn newid.

Ni chewch eich ystyried i fod wedi ymddieithrio heb obaith cymodi o'ch rhieni oherwydd:

- nad ydych yn gallu cyd-fyw yn hapus â'ch rhieni;
- nad ydych yn byw gyda'ch rhieni;
- nad yw eich rhieni am roi manylion eu hincwm; neu
- mae eich rhieni yn dewis peidio â rhoi cefnogaeth ariannol i chi.

**Am ragor o help a gwybodaeth ar ymgeisio fel myfyriwr wedi dieithrio, ewch i wefan 'Standalone'.**

**Yng ngofal cyfreithiol awdurdod lleol Os byddwch yn cychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 –** Os ydych wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig ar unrhyw adeg rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs) ond wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni, byddwch yn dal i gael eich ystyried yn annibynnol.

Dim ond os ydych chi'n ymgeisio am unrhyw un o'r grantiau yn adran 10 y dylech anfon tystiolaeth i incwm eich cartref atom.

**Os cychwynnoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 –** Os ydych chi wedi bod dan ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol ar unrhyw adeg ond rydych chi wedi bod yn ôl dan ofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg ers hynny, ni ystyrir eich bod yn annibynnol.

Anfonwch lythyr wedi ei lofnodi a'i ddyddio gan eich Awdurdod Lleol neu unigolyn proffesiynol sydd wedi eich adnabod ers o leiaf 12 mis.

## Incwm heb ei ennill

**a** Efallai y gofynnir i chi gadarnhau eich amcangyfrif incwm yn ddiweddarach.

Os yw eich gwir incwm yn wahanol i'r amcangyfrif, byddwn yn ail asesu eich hawl i gyllid myfyrwyr. Gall hyn newid y lefel o gymorth ariannol y byddwch yn ei dderbyn.

Wrth gyfrifo eich incwm trethadwy heb ei ennill **ni ddylech** gynnwys:

- enillion o waith llawn neu ran-amser fel gwaith yn y gwyliau neu waith y byddwch yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant y gallwch eu derbyn;
- taliadau yr ydych yn eu derbyn gan eich rhieni trwy gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth y byddwch yn disgwyl eu derbyn ar gyfer eich plant. Dylai'r taliadau cynhaliaeth hyn gael eu cynnwys fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 6c;
- Bwrsariaethau Hyfforddi Athrawon; neu
- gwobrau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr cadw neu bensiynau anabledd neu anallu
- ISAs.

## Taliadau gan gyflogwr

**b2** **Dim ond** os byddwch yn cael eich rhyddhau o'ch gwaith gan eich cyflogwr i ddilyn y cwrs y dylech roi swm yma. Os yw hynny'n wir, dim ond cyflog ar gyfer y dyddiau yr ydych yn mynychu'r cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch gwaith ar eu cyfer y dylech ei gynnwys. Gall unrhyw enillion o gyflog a nodir yma gael effaith ar eich hawl i gyllid myfyrwyr.

**Peidiwch** â rhoi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyriwr sy'n gweithio tra byddwch yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu eich cwrs.

## Plant dibynnol

**c** Rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm y mae'r plentyn yn ei dderbyn trwy weithio, o logau ar gynilion, o fuddsoddiadau a thaliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu derbyn ar gyfer eich plentyn fel rhan o'i incwm **ef neu hi** yn y cwestiwn hwn.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y modd y mae gwybodaeth am yr aelwyd yn cael ei chyfrifo yn y canllaw sydd ar gael yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau fel Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol, Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth, neu symiau bychain o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol. Os bydd incwm eich plentyn dibynnol yn llai o 15% o leiaf nag yr oedd yn y flwyddyn dreth   gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn defnyddio ei incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25 yn hytrach na'i wir incwm ar gyfer 2022-23 wrth gyfrifo eich hawl i grant. Os byddwch am gael eich asesu gan ddefnyddio'r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25 defnyddiwch y tudalennau Nodiadau Ychwanegol ar gefn y ffurflen gais i roi gwybod i ni.

t Bydd raid i chi anfon tystysgrif(au) geni eich plentyn/plant a thystiolaeth wreiddiol yn dangos incwm y plentyn o bob ffynhonnell ar ôl cyfraniadau treth a'r wladwriaeth les yn y flwyddyn dreth 2022-23. Os byddwch wedi rhoi tystysgrifau geni gyda chais blaenorol nid oes raid i chi eu hanfon eto.

# Adran 7 - Categori Cymorth Arbennig

Byddwch yn cael eich asesu am Gymorth Arbennig unwaith y byddwn yn derbyn tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys. Os nad oes gennych y dystiolaeth yn awr, fe ddylech anfon eich cais yr un fath ac anfon y dystiolaeth cyn gynted ag y byddwch yn ei chael.

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) tystiolaeth gofynnol |
|---|---|
| Rydych yn unig riant (neu unig riant maeth) i blentyn neu unigolyn ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn dan lefel addysg uwch | • Tystysgrif geni wreiddiol y plentyn/plant neu lythyr yn cadarnhau gofal maeth, ac<br>• Y llythyr budd-dal plant mwyaf diweddar, Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth neu lythyr dyfarniad Credyd Cynhwysol. |
| Mae gennych bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu'r ddau ohonoch yn gofalu am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch | • Tystysgrif geni wreiddiol y plentyn/plant **a**<br>• Y llythyr Budd-dal Plant mwyaf diweddar, Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth neu lythyr Dyfarniad Credyd Cynhwysol, **a**<br>• Llythyr yn cadarnhau bod eich partner yn fyfyriwr os nad yw wedi gwneud cais am gyllid myfyriwr. |
| Mae gennych anabledd ac rydych yn gymwys i gael y Premiwm Anabledd neu Bremiwm Anabledd Difrifol | • Tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael y Premiwm Anabledd neu Bremiwm Anabledd Difrifol, **neu**<br>• Dystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael **un** o'r budd-daliadau canlynol:<br>– Lwfans Byw i'r Anabl<br>– Credyd Treth Person Anabl<br>– Lwfans Gweini<br>– Lwfans Gweini Parhaus<br>– Ategion Symudedd Pensiynwr Rhyfel<br>– Lwfans Anabledd Difrifol<br>– Budd-dal Anallu |
| Rydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl | • Tystiolaeth feddygol o'ch anabledd, os nad ydych wedi ymgeisio am Lwfans Myfyrwyr Anabl. |
| Rydych wedi cael eich trin fel rhywun na all weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos o leiaf | • Llythyr gan Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau eich bod yn derbyn budd-daliadau anallu tymor hir, **neu**<br>• Lythyr gan eich meddyg yn cadarnhau nad ydych yn alluog i weithio. |
| Mae gennych anabledd ac rydych yn gymwys i gael y Lwfans Gwaith a Chymorth Cysylltiedig ag Incwm | • Llythyr gan Ganolfan Byd Gwaith i gadarnhau eich bod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth oherwydd anabledd, **neu**<br>• lythyr hawl i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a phrawf o'ch anabledd, er enghraifft, llythyr gan eich meddyg. |

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) o dystiolaeth sy’n ofynnol |
|---|---|
| Rydych yn aros i fynd yn ôl ar gwrs ar ôl salwch neu gyfrifoldebau gofalu | • Llythyr o brifysgol neu goleg i gadarnhau bod y seibiant o’r cwrs wedi ei ganiatáu, **a**<br>• Thystiolaeth o salwch neu angen am ofal i’r unigolyn arall. |
| Rydych yn 60 oed neu hŷn | • Nid oes angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth ychwanegol. Bydd yr wybodaeth neu dystiolaeth y byddwch yn eu rhoi i gadarnhau pwy ydych chi yn profi eich bod yn 60 oed neu hŷn. |
| Mae gennych hawl i gael Budd-dal Tai neu’r elfen tai o’r Credyd Cynhwysol | • Llungopi o lythyr hawl dyddiedig wedi dyddiad cychwyn eich cwrs, yn cadarnhau eich bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu elfen tai’r Credyd Cynhwysol tra’ch bod yn astudio. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth Bersonol<br><br>Mae gennych hawl i gael Lwfans Byw i’r Anabl | • Tystiolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau bod gennych hawl i’r taliad hwn. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog | • Tystiolaeth gan yr Asiantaeth Personél a Chyn-bersonél y Gwasanaethau Arfog neu’r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau bod gennych hawl i’r taliad hwn. |

# Adran 8 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

**b1** Am wybodaeth ynghylch rhai sy’n gadael gofal, gweler 5b yn y nodiadau hyn.

**c** Defnyddir y wybodaeth hon i weithio allan os yw’ch plant yn ddibynnol ariannol arnoch chi neu’ch partner yn bennaf yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25.

**d** Os byddwch yn ymgeisio am Grant Gofal Plant byddwn yn anfon ffurflen arall atoch i roi eich manylion gofal plant ac amcangyfrif o’r costau. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Grant Gofal Plant yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch gael gwybodaeth am bob agwedd ar y Credyd Treth Gwaith a’r Credyd Cynhwysol yn: **www.gov.uk**

**e4** Os bydd incwm eich oedolyn dibynnol yn llai o 15% o leiaf nag yr oedd yn y flwyddyn dreth 2022-23 gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn defnyddio eu hincwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25 yn hytrach na’u gwir incwm ar gyfer 2022-23 wrth gyfrifo eich hawl i grant. Os byddwch am gael eich asesu gan ddefnyddio’r incwm disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn dreth 2024-25 defnyddiwch y tudalennau Nodiadau Ychwanegol ar gefn y ffurflen gais i roi gwybod i ni.

t Anfonwch dystiolaeth wreiddiol i ddangos unrhyw incwm trethadwy a dderbyniwyd. Er enghraifft; P60, slip cyflog mis 12/wythnos 53 neu lythyr gan gyflogwr i gadarnhau eich enillion.

## Adran 8 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

**f** Yr ymrwymiadau ariannol y dylech eu cynnwys yw polisïau yswiriant fel yswiriant tŷ neu feddygol, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth i rywun dibynnol. Bydd raid i chi roi tystiolaeth ddogfennol o unrhyw ymrwymiadau y byddwch yn eu datgan.

## Adran 9 - am eich teulu

### Myfyrwyr dibynnol

Os ydych yn fyfyriwr dibynnol, mae'r aelodau canlynol o'r teulu yn cyfrif o ran asesu incwm:

- Eich rhieni naturiol neu fabwysiedig, os bydd y ddau yn byw gyda chi;
- Eich rhiant a'i bartner/phartner, os oes un.

Diffinnir partner eich rhiant fel:

- Eich llysfam neu lystad;
- Partner o'r un rhyw neu o ryw arall eich rhiant os byddant yn byw gyda'i gilydd fel petaent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

### Myfyrwyr annibynnol

Ar gyfer dibenion asesu incwm, os ydych yn fyfyriwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes gennych un, sy'n cyfrif:

Diffinnir eich partner fel:

- Eich gŵr, gwraig neu bartner sifil;
- Eich partner o'r un rhyw neu o ryw arall, os byddwch yn 25 oed neu hŷn ac yn byw gyda'ch partner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil;
- Eich partner rhyw arall neu'r un rhyw, os ydych chi dan 25 ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs a'ch bod yn byw gyda'ch partner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil, a'ch bod wedi dechrau eich cwrs **ar neu wedi 1af Awst 2018.**

Os nad oes gennych bartner fel sy'n cael ei ddiffinio uchod eich incwm chi yn unig y byddwn yn ei asesu.

**b** Os yw'r rhiant yr ydych yn arfer byw gydag ef neu hi wedi priodi eto rhowch dic yn y blwch Priod/partneriaeth sifil.

**c** Os ydych chi wedi ysgaru, gwahanu, neu os buoch mewn partneriaeth sifil sydd wedi ei diddymu, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, gorchymyn diddymiad, gorchymyn terfynol neu amodol, neu lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

# Amodau a Thelerau

Os na allwch lofnodi'r ffurflen rhaid iddi gael ei llofnodi ar eich rhan gan eich atwrnai. Rhaid i'r Llythyr Pŵer Atwrnai gael ei anfon gyda'r cais cyn y bydd llofnod gan y atwrnai yn cael ei dderbyn.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar
**https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/e-breifatrwydd/**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

## Newidiadau yn eich amgylchiadau

Rhaid i chi ein hysbysu am unrhyw newid yn eich amgylchiadau a all effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau i fyfyrwyr fyddai pe byddech:

- yn absennol o'ch cwrs am fwy na 60 diwrnod oherwydd salwch;
- yn absennol am unrhyw reswm arall;
- yn gadael, rhoi'r gorau i'r cwrs neu yn cael eich gwahardd oddi ar y cwrs;
- yn stopio mynychu'r cwrs ac nad ydych yn bwriadu, neu nad ydych yn cael, dychwelyd am weddill y flwyddyn academaidd;
- yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg, neu mewn un gwahanol;
- yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i un rhan-amser;
- yn ailadrodd rhan neu'r cyfan o flwyddyn o'ch cwrs; neu
- yn deall bod dyddiad dechrau neu ddiwedd eich cwrs wedi newid.

Y ffordd gyflymaf a hawsaf o roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'ch cyfeiriad yw ar-lein. Os bydd unrhyw fanylion am y cwrs yn newid neu eich bod yn gohirio, tynnu yn ôl neu drosglwyddo rhaid i chi siarad â'ch prifysgol neu goleg a fydd yn rhoi gwybod i ni. Mewngofnodwch i'ch cyfrif yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Gwybodaeth am rannu data ar gyfer dibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwyster a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau – 'dibenion gweinyddu bwrsariaethau'), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru neu'r SLC i Fyfyrwyr am fynediad at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid i fyfyrwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Cysylltwch â'r brifysgol neu'r coleg os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am eu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2022-23 ar gyfer rhieni a phartneriaid

**Beth fydd yn digwydd os yw incwm fy nghartref wedi newid ers blwyddyn dreth 2022-23?**
Os bydd cyfanswm incwm eich cartref (cyn treth) ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 o leiaf 15% yn llai nag yr oedd ym mlwyddyn dreth 2022-23, llenwch yr adran hon o hyd yn ogystal â chwblhau 'Ffurflen Asesu Incwm y Flwyddyn Gyfredol'.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a'i dychwelyd gyda'r cais hwn.

! Noder na ellir cyflawni asesiad incwm blwyddyn bresennol oni bai eich bod yn darparu'ch manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

## Rhan A - Manylion personol

**Statws Priodasol**
Anfonwch gopi o un o'r eitemau tystiolaeth canlynol. Os ydym eisoes wedi derbyn tystiolaeth a anfonwyd gennych i gefnogi cais blaenorol ar gyfer y myfyriwr hwn nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau pellach. Dim ond os nad ydych wedi gwneud hynny o'r blaen neu os yw eich amgylchiadau wedi newid y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth.

- Archddyfarniad absoliwt
- Archddyfarniad nisi
- Gorchymyn diddymu
- Bil treth gyngor diweddaraf yn dangos gostyngiad deiliadaeth sengl o 25%
- Llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich statws
- Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth
- Gorchymyn terfynol neu amodol

## Rhan B – Rhannu data a chi

Byddwn yn gwirio eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) gyda Chyllid a Thollau EF. Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol yn y Deyrnas Unedig.

Os nad oes gennych rif YG rhaid i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau ariannol.

Os nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23, mae angen i chi ddarparu:

- llythyr oddi wrthych yn cadarnhau nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23; neu
- llythyr gan unrhyw drydydd parti a oedd yn eich cefnogi yn ystod y flwyddyn dreth (fel partner)

Rhaid i'r llythyr gael ei lofnodi a'i ddyddio er mwyn iddo gael ei dderbyn.

## Rhan C - Incwm arall ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

Rhowch wybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23. Fel arfer, dyma'r flwyddyn sy'n dod i ben 5 Ebrill 2023, ond gall fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu fusnes flwyddyn dreth nad yw'n dod i ben ym mis Ebrill.

**C1 Incwm yn y DU nad yw CThEF yn gwybod amdano**

Efallai eich bod wedi ennill o dan y trothwy i ddatgan yr incwm hwn i CThEF, ond bydd hwn yn dal i gael ei ddefnyddio i gyfrifo hawl y myfyriwr(myfyrwyr).

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2022-23 ar gyfer rhieni a phartneriaid

## Rhan D – Incwm tramor ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

**C1 Incwm o dramor nad ydych wedi dweud wrth CThEF amdano eisoes**

Dim ond am unrhyw incwm a enillwyd dramor nad ydych eisoes wedi'i ddatgelu i CThEF fel rhan o'ch hunanasesiad y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym.

**a Cyfanswm incwm o gyflog/hunangyflogaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau treth o'r wlad berthnasol yn cadarnhau swm yr incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

**b Cyfanswm incwm o fudd-daliadau'r wladwriaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau budd-daliadau, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y budd-dal(iadau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

**c Cyfanswm incwm o bensiwn (neu bensiynau) galwedigaethol, preifat neu wladwriaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau pensiwn, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y pensiwn(pensiynau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

## Rhan E – Didyniadau incwm

**Os na wnaethoch dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

**Os taloch unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae'r dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu i'w gweld yn y tabl isod.

| Math didyniad | Angen tystiolaeth |
|---|---|
| Cyfraniad pensiwn preifat | Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu Ddatganiad gan Ddarparwr Pensiwn |
| Cyfraniad gwirfoddol ychwanegol (AVC) | Cadarnhad gan DWP o Swm y Pensiwn a Dalwyd, Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu P60 |

## Rhan F – Eich dibynyddion

### Blwyddyn academaidd

Dylech ddarparu incwm y plentyn dibynnol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Pennir y flwyddyn academaidd yn ôl pryd y bydd y myfyriwr yn dechrau ei astudiaethau.

| Mae astudiaethau'r myfyriwr yn dechrau rhwng | Blwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 yn gynhwysol | 1 Medi 2024 hyd 31 Awst 2025 |
| 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025 gynhwysol | 1 Ionawr 2025 hyd 31 Rhagfyr 2025 |
| 1 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025 yn gynhwysol | 1 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2026 |
| 1 Gorffennaf 2025 a 31 Gorffennaf 2025 yn gynhwysol | 1 Gorffennaf 2025 hyd 30 Mehefin 2026 |

**C1** Mae incwm y dibynnydd sy'n blentyn yn ofynnol i asesu'r cymhwyster ar gyfer y didyniadau yng nghyfrifiad incwm y cartref ar gyfer pob plentyn sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ddibynnol yn ariannol ar y myfyriwr, gwr, gwraig neu bartner y myfyriwr neu rieni neu lys rieni'r myfyriwr.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir incwm y cartref trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth, Budd-dal Plant y Wladwriaeth, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol neu isafsymiau o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm dibynnydd sy'n blentyn.

## Datganiad i rieni neu bartneriaid

Os na fydd unrhyw unigolyn/unigolion a enwir yn adran 10 yn gallu llofnodi’r ffurflen, rhaid i’w atwrnai ei llofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda’r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

### Hysbysiad Preifatrwydd

SLC a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i’r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio’r wybodaeth i wneud unrhyw un o’r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy’n gyfrifol amdani, a’r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i’r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

### Newidiadau yn eich amgylchiadau

Rhaid i chi ein hysbysu am unrhyw newid yn eich amgylchiadau a all effeithio ar hawl y myfyriwr i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin fyddai pe bai:

- incwm yr aelwyd yn newid; neu
- eich statws priodasol yn newid.

### Gwybodaeth am rannu data ar gyfer dibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i’w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu’r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwyster a’r hawl i’w cael, a phan fo hynny’n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau – ‘dibenion gweinyddu bwrsariaethau’), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru neu’r SLC i Fyfyrwyr am fynediad at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy’n ymwneud ag unrhyw gais am gyllid i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).